# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Jim Evans, Kenneth Hughes, T. H. Jones, W. T. Hughes, R. L. Owen, Hefin W. Thomas, J. P. Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Rheoli Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio (MG)<br>Cynorthwywyr Cynllunio |
| | Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus)(JRWO)<br>Technegydd (Rheoli Datblygu (JR) |
| | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd Lewis Davies |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd a chofnodwyd y datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2011, yn amodol ar newid:-

11.4 – Gwesty Carreg Môn
Nododd y Cynghorydd J. P. Williams iddo ddweud y dylid gohirio'r cais am fis er mwyn caniatáu amser i'r ymgeiswyr a'r swyddogion ddod i gytundeb ynglŷn â'r cais.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2011.

**5 Y CYHOEDD YN SIARAD**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelod o'r cyhoedd yn siarad yng nghyswllt cais 7.1 ar y rhaglen.

**6 CEISIADAU A OHIRIWYD**

**6.1 35C87C – Addasu'r adeiladau allanol presennol yn 7 uned breswyl ynghyd â gosod gwaith trin preifat yn Tros y Marian, Llangoed**

*(Datganodd y Cynghorydd Hefin W. Thomas ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

*(Roedd y Cynghorydd Lewis Davies wedi datgan diddordeb yn y cais hwn ond roedd wedi ymddiheuro am ei absenoldeb o'r cyfarfod).*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod yn argymell y dylid gohirio rhoi sylw i'r cais er mwyn derbyn manylion pellach ynglŷn â'r draenio ac i ddatrys materion godwyd yn ystod y cyflwyniad diwethaf i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais hwn yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**7 CEISIADAU YN CODI**

**7.1 11C557B – Codi dau dwrbin gwynt gyda diametr rotor o hyd at 71 metr a llafn o hyd at 92.5 metr ar y mwyaf ynghyd â chodi is-orsaf ac adeilad rheoli, trac mynediad newydd a llefydd caled cysylltiol a datblygiadau ar dir yn Ysgellog Rhosgoch**

*(Datganodd y Cynghorwyr W. T. Hughes a T.H. Jones ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth y ddau allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

Yr aelod lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Penderfynodd yr Aelodau gynnal ymweliad safle yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Pwyllgor Cynllunio ac fe gynhaliwyd yr ymweliad ar 20 Ebrill 2011 a bydd yr aelodau bellach yn gyfarwydd â'r safle.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr W. I. Edwards i'r cyfarfod a fyddai'n siarad yn erbyn y cais. Gwahoddodd Mr. Edwards i annerch y Pwyllgor.

Dywedodd Mr. Edwards ei fod wedi bod yn byw yng nghymuned ac ardal Rhosgoch am 65 mlynedd. Dywedodd ei fod yn siarad drosto'i hun ac aelodau eraill o gymuned Rhosgoch oedd wedi mynegi pryderon am y datblygiad hwn. Gan fod y Pwyllgor wedi ymweld â'r safle bydd yr aelodau bellach yn gwybod am yr ardal yn bur dda ac yn gwybod bod nifer o'r tyrbinau gwynt hyn yn amgylchynu ardal Rhosgoch ar hyn o bryd. Mae yna fferm wynt yn Llanbabo, Rhosybol a Chemaes; mae yna tua 70-90 o amgylch ardal Rhosgoch. Dywedodd Mr. Edwards ei fod wedi cael ar ddeall y byddai tyrbinau gwynt ar y tir yn cael eu dirwyn i ben i ryw raddau a hynny o blaid tyrbinau yn y môr ac y mae yna fferm dyrbinau gwynt o'r fath i'w datblygu yn ardal Caergybi ac yr oedd ef o'r farn y byddai'r rhain yn llawer mwy 'pobl-gyfeillgar'.

A siarad yn gyffredinol ynglŷn â'r datblygiad arbennig hwn roedd yna ddau beth oedd yn ei bryderu sef maint a graddfa'r tyrbinau a fwriedir yn Ysgellog, gan y byddent yn dominyddu'r gymuned a'r ardal ac maent yn llawer mwy na dim byd arall sydd yn yr ardal ar hyn o bryd, sef 300 troedfedd. Yr ail gonsyrn oedd y posibilrwydd o lygredd sŵn gan fod tyrbinau gwynt yn gallu cynhyrchu dipyn go lew o sŵn. Byddant yn dominyddu'r dirwedd yn Rhosgoch ac roedd yn boendod i Mr. Edwards pe bai'r Pwyllgor Cynllunio'n caniatáu'r datblygiad hwn y byddai'n agor y drws i fwy o dyrbinau yn yr ardal.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr. Cliff Lane i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai'n siarad dros y cynnig. Gwahoddodd Mr. Lane i annerch y Pwyllgor.

Aeth Mr. Lane yn ei flaen i egluro bod y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd, sef yr effaith ar y dirwedd a'r niwed i osodiad adeilad rhestredig, yn safbwyntiau goddrychol ac yn rhai gwan iawn yn ei farn ef. Roedd yn deall bod y rhesymau hyn yn seiliedig yn unig ar wrthwynebiad gan Adain Amgylchedd Adeiledig y Cyngor. O'r 12 o ymatebion gafwyd gan ymgynghorwyr technegol, yr Adain hon o'r Cyngor yw'r unig rai i wrthwynebu. Yn bwysig iawn, dau o'r ymgynghorwyr oedd yn gefnogol i'r prosiect oedd ymgynghorwyr cenedlaethol Cymru ar faterion cefn gwlad ac adeiladau rhestredig, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru a CADW.

Nododd bod y Pwyllgor i gyd wedi derbyn copi o'r llythyr o gefnogaeth gan Mr. Henry Tudor, perchennog Plas Boderwyd. Fel y cymydog agosaf a pherchennog yr eiddo a gafodd ei enwi fel un o'r rhesymau tros wrthod, roedd ei safbwyntiau yn bwysig.

Wrth baratoi'r cais hwn, roedd yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion mawr i sicrhau yn gyntaf, bod safle priodol wedi'i ddewis ac yn ail bod y tyrbinau wedi'u lleoli'n dda ac yn drydydd bod y tyrbinau yn rhai o uchder priodol.

Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r diffyg pwysau oedd yn cael ei roddi yn adroddiad y Swyddog i gyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol newydd diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd yn llawer mwy cefnogol i gynlluniau ynni gwynt bychan, fel y cynllun hwn. Roedd y datganiad polisi newydd yn pwysleisio bod prosiectau ynni adnewyddadwy o faint yr un hwn yn Ysgellog, yn addas ym mhob rhan o Gymru ac fe ddylid eu hannog.

Pwysleisiodd ymhellach nad oedd yna ond 4 llythyr yn gwrthwynebu'r cynllun diwygiedig ond bod yna, ar y llaw arall, 14 o lythyrau oedd yn cefnogi'r cynllun, o gyfeiriadau lleol. Dywedodd ei fod ar ddeall bod yr aelod lleol yn cefnogi'r cynllun a'r dydd Mawrth diwethaf roedd Cyngor Tref Amlwch wedi pleidleisio'n unfrydol i beidio â gwrthwynebu a gofynnodd Mr. Lane i'r aelodau roi'r sylw dyledus i'r sylwadau hyn o gefnogaeth o'r ardal.

Pwysleisiodd:-

- Byddai'r cynigion yn darparu manteision cymunedol sylweddol i'r ardal leol;

- Byddai cynllun dau dyrbin yn darparu digon o bŵer i tua 2,700 o gartrefi ar yr Ynys;

- Fe ddewiswyd y safle i raddau helaeth oherwydd ei fod yn gyfagos i ddepo storio olew Rhosgoch ac am bod yna ddwy fferm wynt arall gerllaw a nifer o beilonau trydan mawr yn y parthau. Mae'r safle hefyd yn ddigon ar wahân i ardaloedd dynodedig fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

- Yn olaf, roedd adroddiad y Swyddog yn cymharu uchder y ddau dyrbin arfaethedig gyda'r tyrbinau mewn ffermydd gwynt cyfagos. Tra bod y tyrbinau yn uwch, maent yn llawer is na'r safon bresennol yn y diwydiant, sef 125m ac mae pob twrbin yn cynhyrchu llawer mwy o drydan yr un.

- Roedd yn bwysig nodi hefyd bod y ffermydd gwynt presennol yn dod i ddiwedd eu bywyd ac y byddant yn cael eu newid yn fuan gyda thyrbinau cryfach. Mae'r gwaith ailbweru hwn yn cael ei gefnogi gan Fframwaith Ynys Ynni Môn.

Wrth gloi, fe ddywedodd Mr. Lane – ac yntau yn siarad fel cyn-Arolygwr Cynllunio, ei fod yn credu mai argymhelliad goddrychol gwan iawn tros wrthod oedd gan y Cyngor o'i flaen. Nid ei farn broffesiynol ef yn unig oedd hyn oherwydd bod y prosiect yn cael ei gefnogi gan :-

- Bolisi cynllunio cenedlaethol;
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- CADW;
- Cyngor Tref Amlwch
- Perchennog Plas Boderwyd;
- Y mwyafrif o'r gymdogaeth; a
- Fframwaith Ynys Ynni Môn.

Yr unig wrthwynebiad oedd yr un gan Adain Amgylchedd Adeiledig y Cyngor ac yr oedd yn sicr y byddent yn ei chael yn anodd i amddiffyn eu penderfyniad ar apêl.

Gofynnodd i'r Aelodau ddod i ganlyniad arall (gan gefnogi'r cyngor cenedlaethol a llais yr ardal), a gofynnodd i'r Pwyllgor roddi caniatâd cynllunio i'r cynnig haeddiannol hwn.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod yna ragdybiaeth o blaid prosiectau ynni adnewyddadwy ym mholisïau cynllunio'r awdurdod yn ogystal ag yn y polisi cenedlaethol ac yr oedd hyn wedi'i ddweud yn yr adroddiad. Dywedodd mai'r rheswm am yr argymhelliad o wrthod yw bod y tyrbinau yn rhy uchel yn y lleoliad hwn a'u bod yn cael effaith ar y dirwedd a'r eiddo cyfagos sydd yn adeilad rhestredig.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd G. W. Roberts OBE nad oedd y siaradwr olaf (Mr. Lane) yn hollol gywir wrth ddweud bod 'yr aelod lleol yn cefnogi'r cynllun': dywedodd nad oedd wedi mynegi barn ynglŷn â'r cais. Dywedodd y Cynghorydd Roberts bod yna dyrbinau gwynt yng ngogledd Ynys Môn yn barod a bod yna dros 30 o dyrbinau gwynt o amgylch ei gartref ac nid oedd ef wedi clywed unrhyw niwsans o ran sŵn yn dod oddi wrthynt.

Nododd ymhellach bod adroddiad y swyddog yn dweud nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad cynllunio i'r cais hwn ac nad oedd y Cyngor ond yn gwrthwynebu uchder y tyrbinau. Cytunodd bod uchder gwreiddiol y tyrbinau, sef 100 metr yn broblem ond roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i ostwng uchder y tyrbinau rhyw chwarter ac roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi tynnu eu gwrthwynebiad i'r cais yn ôl yn dilyn gostwng uchder y tyrbinau. Dywedodd bod y Cyngor Sir wedi cael cyflwyniad yng nghyswllt y fenter Ynys Ynni a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Llywodraeth Ganolog yn cefnogi 'ynni gwyrdd'. Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn ofalus gan ei fod yn un pwysig iawn i'r Ynys. Dywedodd y byddai'n well ganddo weld dau dyrbin gwynt o'r maint hwn na 8 i 10 o rai llai.

Roedd y Cynghorydd W. J. Chorlton yn ei chael yn anodd i wrthod y cais gan nad oedd CADW, Comisiwn Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd na Dŵr Cymru wedi gwrthwynebu. Cytunodd y Cynghorydd J. P. Williams ac wedi iddo ddarllen adroddiad y Swyddog, roedd yn gweld nad oedd yna unrhyw wrthwynebiadau i'r tyrbinau gwynt nes y deuir at yr argymhelliad ar dudalen 10 sy'n dweud y dylid gwrthod y cais oherwydd bod yr awdurdod yn ystyried y byddai graddfa, uchder, symudiad a safle'r tyrbinau gwynt arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar y dirwedd. Roedd yn ei chael yn anodd i wrthod y cais hwn.

Roedd y Cynghorydd K. P. Hughes, yn dilyn darllen adroddiad y Swyddog ynglŷn â'r cais, yn ystyried y byddai'r awdurdod yn cael ei hun mewn sefyllfa wan iawn pe bai'r ymgeisydd yn penderfynu apelio yn erbyn yr argymhelliad i wrthod. Roedd y Cynghorydd Hughes am argymell caniatáu'r cais ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd R. L. Owen.

Dweud wnaeth y Cynghorydd E. G. Davies ei fod yn meddwl y dylid gwrthod y cais yn unol â'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

Roedd yr Aelod Lleol yn dymuno iddo gael ei gofnodi bod y cais o fewn ei ward ef ac nad yw ef yn ymyrryd yn wardiau'r aelodau eraill. Dywedodd iddo ymweld â'r tai yn yr ardal a dim ond dau berson oedd wedi gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig. Roedd wedi cael cyfarfodydd gyda'r cwmni ar dri achlysur hefyd. Roedd Cyngor Tref Amlwch yn unfrydol yn ei gefnogaeth i'r cais ac roedd perchennog yr adeilad rhestredig cyfagos wedi mynegi ei gefnogaeth i'r cais. Holodd y Cynghorydd Roberts a ellid rhoddi cytundeb Adran 106 ar weddill y tir. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod yn credu nad oedd cytundeb Adran 106 yn briodol gyda'r cais hwn. Fodd bynnag, pe bai cais arall yn cael ei wneud am fwy o dwrbinau ar y tir, yna byddai'r cais hwnnw'n cael ei asesu bryd hynny.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:-

Caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog: Y Cynghorwyr w. J. Chorlton, Jim Evans, K. P. Hughes, R. L. Owen, H. W. Thomas, J. P. Williams **Cyfanswm 6**

Derbyn adroddiad y Swyddog a gwrthod y cais: Cynghorwyr E. G. Davies, Eric Roberts a J. A. Roberts **Cyfanswm 3**

Fe ataliodd y Cynghorydd Selwyn Williams rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion er mwyn caniatáu amser i Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau tros ganiatáu'r cais.**

Y rheswm a roddwyd gan y Pwyllgor tros ei benderfyniad oedd eu bod, fel mater o farn, yn cytuno gyda safbwyntiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a CADW ac nad oeddent yn credu bod y cynnig yn rhy uchel na chwaith y byddai'n cael effaith annerbyniol ar osodiad yr adeilad rhestredig.

**7.2 31C19N/AD – Newid yr arwydd hysbysebu dwy ochrog presennol a chodi arwydd hysbysebu arall ar hyd ffryntiad yr A5 yng Ngwesty Garreg Môn, Llanfairpwll**

*(Roedd Mr. Richard Eames, Swyddog Rheoli Datblygu Priffyrdd wedi datgan diddordeb yn y cais hwn ond wedi ymddiheuro am ei absenoldeb).*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y Pwyllgor wedi penderfynu yn ei gyfarfod fis Ebrill i ganiatáu'r cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog, oherwydd bod yr aelodau yn ystyried bod dyluniad yr arwydd yn dderbyniol. Dywedodd ymhellach mai barn swyddogion yw bod yr arwydd, oherwydd ei faint a'i leoliad, yn creu nodwedd ddieithr ac amlwg yn y dirwedd ac y byddai o'r herwydd yn cael effaith niweidiol. Roedd argymhelliad y Swyddog yn parhau yn un o wrthod.

Dywedodd yr Aelod Lleol y Cynghorydd J. P. Williams ei fod yn dymuno i'r cais gael ei ohirio fel y gellid cynnal trafodaethau rhwng y Swyddogion a'r ymgeisydd i geisio dod i gytundeb ar faint yr arwydd.

Argymhellodd y Cynghorydd H. W. Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD glynu wrth y penderfyniad blaenorol i ganiatáu, yn groes i argymhelliad y Swyddog.**

*(Fe ataliodd y Cynghorydd W. J. Chorlton, T. H. Jones a J. P. Williams eu pleidlais ar y cais).*

**7.3 38C180C – Cais amlinellol i godi annedd ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir yn Gilfach Glyd, Mynydd Mechell.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y cais wedi cael ei ohirio yn y cyfarfod diwethaf fel y gellid datrys problemau ynglŷn â'r fynedfa i'r datblygiad. Mae'r cais presennol yn newid safle'r cais fel ei fod yn awr yn gyfagos i gwrtil Gilfach Glyd. Ar sail hyn, roedd yn cael ei ystyried fel datblygiad fyddai'n 'gorffen yn grwn' y rhan hwn o'r anheddiad.

Dywedodd yr Aelod Lleol y Cynghorydd T. H. Jones ei fod, yn dilyn cyfaddawd gyda'r ymgeisydd i ddiwygio safle'r cais, yn argymell y dylai'r cais gael ei ganiatáu ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd K. P. Hughes.

Nododd y Cynghorydd H. W. Thomas y ffaith nad oedd y cyfnod ymgynghori ar y cynlluniau diwygiedig gydag eiddo cyfagos i'r safle yn dod i ben hyd 10 Mai 2011. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio y byddai'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl i sylw'r Pwyllgor pe bai unrhyw lythyrau o wrthwynebiad yn cael eu derbyn.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ac argymhelliad y Swyddog i ganiatáu, yn amodol ar yr amodau oedd yn yr adroddiad, ac i ddirprwyo rhoi caniatâd i'r Prif Swyddog Cynllunio ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.**

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Nid oedd unrhyw geisiadau economaidd i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

**9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY**

Nid oedd unrhyw geisiadau am dai fforddiadwy i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

**10 CEISIADAU YN TYNNU'N GROES**

**10.1 23LPA858A/CC – Cais llawn i godi annedd yn lle annedd oedd yno cyn hynny ac a ddinistriwyd gan dân ac a ddymchwelwyd wedi hynny ar sail iechyd a diogelwch, yn Fferm Tynronnen, Llangwyllog**

Argymhellodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y cais yn cael ei ohirio er mwyn cael mwy o amser i ystyried materion polisi.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhellion y Swyddog.**

**11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 40C80B – Cais llawn i godi 4 annedd ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir y tu cefn i 'The Wheel and Anchor', Moelfre

Roedd y cais wedi ei ddwyn gerbron y Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol. Dywedodd y Cadeirydd yr ymwelwyd â'r safle ychydig flynyddoedd yn ôl.

Dweud wnaeth y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y safle o fewn y ffin ddatblygu. Mae'r safle yn gorwedd o fewn ardal llifogydd ond mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau nad oes ganddi unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad ar sail llifogydd, yn amodol ar osod amod ynglŷn â lefelau lloriau gorffenedig y datblygiad. Dywedodd ymhellach nad oedd yn gweld unrhyw reswm i wrthod y cais o safbwynt cynllunio.

Argymhellodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog a'i argymhelliad o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

### 12.2 46C160M – Cais cynllunio llawn i gynyddu'r nifer o garafanau symudol o 20 i 36 a hefyd lunio trac mynediad newydd ac uwchraddio'r brif ffordd trwy'r safle yn Ddraenan Ddu, Penrhosfeilw, Caergybi.

*(Datganodd y Cynghorydd Eric Roberts ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod hwn yn gais cynllunio llawn i gynyddu'r nifer o garafanau symudol o 20 i 36 a hefyd i wneud gwaith tirlunio a gwella'r fynedfa i'r safle. Mae gan y safle dystysgrif defnydd cyfreithlon i leoli 20 carafán symudol a hyd at 6 phabell, gyda hynny wedi ei roi ar apêl yn 2002. Mae'r cais yn cadw'r defnyddiau hyn ond yn edrych i fedru lleoli 16 o garafanau symudol ychwanegol ar y safle.

Dywedodd bod llythyr wedi'i dderbyn ar ôl i adroddiad y Swyddog gael ei ysgrifennu, gan y Cyngor Cymuned Lleol yn gwrthwynebu'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd W. J. Chorlton bod yna hanes o dorri amodau cynllunio wedi bod ar y safle hwn ac roedd yn bwysig bod y safle'n cael ei fonitro yr un fath â safleoedd eraill tebyg.

Holodd y Cynghorydd Selwyn Williams a oedd yr Adran Briffyrdd yn fodlon gyda'r fynedfa i'r safle. Dywedodd y Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) y byddai'n rhaid gwella'r fynedfa cyn bod unrhyw waith datblygu yn dechrau ar y safle.

Dywedodd y Cynghorydd T. H. Jones bod y safle o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'i bod yn hanfodol bod gwaith tirlunio priodol yn digwydd yma. Ymhellach i hyn, dywedodd y dylid monitro'r safle yn rheolaidd er mwyn darparu safon o ansawdd uchel i ddefnyddwyr y safle. Roedd y Cadeirydd yn cytuno gyda datganiad y Cynghorydd Jones a nododd bod y tir yn dir gwael yn y lleoliad hwn ac y dylid edrych yn ofalus ar y math o dirlunio a fwriedir. Dywedodd ymhellach y dylai'r gwaith ar y fynedfa a'r gwaith tirlunio ar y safle fod wedi'u cwblhau cyn dechrau unrhyw waith datblygu ar y safle fel sy'n cael ei ddweud yn yr amodau yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd yr amod ynglŷn â gwella'r fynedfa wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Gofynnodd am i'r Pwyllgor roddi pwerau i weithredu i'r swyddogion, mewn ymgynghoriad gyda'r Adran Briffyrdd, i osod amod ynglŷn â'r gwelliannau i'r fynedfa. Gofynnodd ymhellach am ymchwiliad pellach i amod 2 yn yr adroddiad er mwyn tynhau'r amodau tirlunio ar y safle os mai dyna oedd dymuniad y Pwyllgor.

Argymhellodd y Cynghorydd H. W. Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd J. P. Williams.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog a'i argymhelliad o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad a dirprwyo i'r Prif Swyddog Cynllunio yr hawl i ychwanegu amod ynglŷn â gwella'r fynedfa i'r safle ac adolygu a chryfhau amod (02).**

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**